

Trywydd Coedwig Mynydd y Drenewydd

Llwybr Marchogaeth, Penycae, Wreccsam

Er ei fod wedi'i anelu at farchogion yn bennaf, mae croeso i gerddwyr a beicwyr mynydd ddefnyddio'r trywydd hwn.

Disgrifir y Prif Drywydd o oddeutu 9.5 km i gyfeiriad y cloc gan ddechrau wrth Gyfeirnod Grid SJ 278 462 (Ochrol 53.008490 Ar ei Hyd -3.077709), ychydig i'r gogledd o Benycae ger Wreccsam. Mae cyfle i fyrhau'r llwybr trwy gymryd y llwybr byr, a dolen estynnol dewisol oddi ar y prif drywydd o gwmpas Cronfa Ddŵr Tŷ Mawr.

Sylwch – yn dechrau ar 16/04/14 bydd gwyriad am 6 mis hanner ffordd rhwng pwyntiau A a B a phwynt E (gweler y testun trymach isod)

Cyfeiriadau'r Trywydd

Mae'r llwybr yn dechrau wrth gilfan ar lôn ychydig i'r gogledd o Fferm Yew Tree Isaf. Gyda'r fferm ar yr ochr chwith i chi, dilynwch y lôn i gyfeiriad y de i lawr y bryn, dros y nant ac i fyny i'r tro wrth Fferm Pentre. Trowch i'r dde fan hyn i Dark Lane [A], sy'n agor i ran oddi ar y ffordd rhyw 1/3 o'r ffordd i fyny, trwy Yew Tree Dingle. Pan fyddwch yn cyrraedd y ffordd darmac, **trowch i'r chwith ac yna cymerwch y troad cyntaf ar y dde ac ewch i fyny'r lôn gul gloddiog heibio i Fferm Dryll. Ewch yn syth ymlaen nes bod y ffordd darmac yn troi'n sydyn i'r dde, ewch yn syth ymlaen ar hyd y llwybr byr, drwy'r giât geffylau, er mwyn cyrraedd y mynydd.**

Mae'r llwybr yn disgyn i ddiwedd y llwybr ceffylau lle mae'n ymuno â ffordd fach.

Fan hyn, mae gennych ddewis i aros ar y Prif Drywydd neu ddychwelyd i'ch man cychwyn trwy llwybr byrrach.

Llwybr byr (cyfanswm hyd oddeutu 8km)

Trowch i'r dde i mewn i'r lôn tuag at Dai-nant, gan fynd heibio i gapel Tai-Nant (G) a Phen-y-Lan (H). Ar ôl 200metr pellach, bydd y mynediad uchaf i Dark Lane yn cael ei weld ar y chwith; trowch i lawr fan hyn ac ail-ddilynwch eich llwybr yn ôl i'ch man cychwyn.

Y Prif Drywydd (cyfanswm hyd oddeutu 9.5km)

Trowch i'r chwith i mewn i'r lôn. Mae modd gweld Cronfa Ddŵr Pant Glas [I] ar y dde, ac ar y chwith, dros y grid gwartheg ac yn y coed, mae Mountain Lodge

(bwthyn ciper Ystâd Wynnstay). Ewch ymlaen i ddilyn y lôn, gan basio Plas Drain (J), gan ddisgyn am 1.2 km i Godremynydd (bythynnod brics coch). *Fan hyn, gellir dewis mynd ar hyd dolen Tŷ Mawr sy'n gadael y prif drywydd.*

Yng Ngodremynydd, dilynwch y lôn o gwmpas i'r dde, gan basio Fferm Onnen Fawr, a throwch ar y troad nesaf ar y dde. Ewch yn syth ymlaen am ryw 0.75km, gan fynd heibio Tŷ Canol, i fynd nôl i'ch man cychwyn.

Dolen Tŷ Mawr

Ar ôl pasio Godremynydd, cymerwch droad i'r chwith wrth fferm Onnen Fawr. Ar ôl 0.4km, trowch i'r chwith (gyferbyn â 'New Buildings') i drac heb ei drin sy'n dolennu o gwmpas Cronfa Ddŵr Tŷ Mawr (K). Dilynwch y trac i'r dde o gwmpas y gronfa ddŵr gyda changen sy'n mynd bant i Gronfa Ddŵr Cae Llwyd ar y chwith. Trowch i'r dde wrth ailymuno â'r lôn i gwblhau'r cylched ac ailddilynwch y llwybr i Godremynydd. Wrth y gyffordd fan hyn, trowch i'r chwith ac yna'r troad nesaf ar y dde (ymhen rhyw 100 metr) wedyn dilynwch y ffordd hon am 0.8km (gan basio Tŷ Canol) yn ôl i ddechrau'r trywydd.

Sut mae cyrraedd yma

Defnyddiwch Fap 256 Explorer yr Arolwg Ordnans

Sylwch – Dylai cerbydau mwy o faint a gyrwyr gyda threlars ddilyn y cyfarwyddiadau o'r Gogledd gan fod y lôn sy'n arwain o Benycae yn eithaf cul.

O'r Gogledd

Gadewch ffordd osgoi Wreccsam (A483) wrth ffordd ymadael Rhostyllen a chymerwch y B5605 oddi ar y cylchfan lle gwelir arwyddion Johnstown / Rhosllanerchrugog. Ar ôl 0.4 km, trowch bant i'r dde ychydig ar ôl yr arwydd terfyn o 40 mya (Smithy Lane, arwyddion i'r Amlosgfa) wedyn ewch ymlaen i'r gyffordd T a throwch i'r chwith i'r A5097, lle gwelir arwyddion i Rhosllanerchrugog. Ar ôl 3.2km arall, ychydig ar ôl tafarn y Coach and Horses ar yr ochr dde i chi, cymerwch y troad nesaf ar y dde (Mountain Street). Ar ôl 50 metr, trowch i'r dde wrth y gyffordd T gyferbyn â Sun Inn. Ar ôl 1.6 km arall, trowch i'r chwith wrth y tro gyferbyn â Fferm Onnen Fawr wedyn ewch ymlaen am ryw 0.8 km i barcio yn y gilfan ar y dde. **Cyfeirnod Grid SJ 278 462 (Ochrol 53.008490 Ar ei hyd -3.077709)**

O'r De

Gadewch ffordd osgoi Wreccsam (A483) yn Rhiwabon gan ddilyn yr arwyddion i Langollen (A539), wedyn cymerwch y ffordd ymadael gyntaf wrth y cylchfan. Ewch yn syth ymlaen yn y cylchfan nesaf, wedyn ar ôl rhyw 0.4 km, cymerwch y

troad cyntaf ar y dde [Plas Bennion Road] i fynd am Benycae. Ewch ymlaen am 2 km i bentref Pen y Cae, wedyn cymerwch y troad nesaf ar y dde (Hill Street) 50 metr ar ôl pasio tafarn y Black Horse ar y dde. Ychydig cyn gwaelod y bryn, trowch i'r chwith i Stryd Lampit (arwydd dim ffordd drwodd). Ewch ymlaen am ryw 0.8km, gan basio Fferm Yew Tree Isaf, wedyn parciwch ar ben y bryn yn y gilfan ar y chwith. **Cyfeirnod Grid SJ 278 462 (Ochrol 53.008490 Ar ei hyd - 3.077709)**

Nodiadau hanesyddol a manau o ddiddordeb

[A] DARK LANE – Mae hon yn rhan o'r ffordd wreiddiol a redai dros y rhosydd i Landegla o Riwabon.

[B] PLAS DU – Mynachlog oedd hwn yn wreiddiol, lle cynigiai'r mynachod loches dros nos yma i bererinion oedd yn ymweld ag Abaty Glyn y Groes os oeddent yn cyrraedd yn rhy hwyr i groesi'r mynydd i Langollen yn ystod golau dydd.

[C] CRONFA DDŴR UCHAF – Fe'i codwyd ym 1902 gan Gwmni Dŵr Rhiwabon i ddal 126 miliwn litr o ddŵr i gyflenwi eu gwaith brics. Cynhaliwyd gwaith adnewyddu ym 1990.

[D] PENTREFAN Y DRENEWYDD – Yng nghanol y goedwig, mae adfeilion cartrefi'r sgwatwyr, a godwyd ar dir comin dan arfer hynafol 'Tŷ Unnos' (cartrefi un noson). Roedd rhaid i fwg godi o'r simnai cyn machlud er mwyn i'r llain gael ei hawlio.

[E] MYNYDD RHIWABON – Bu hwn dan berchnogaeth Ystâd Wynnstay er 1857, pan gafodd ei brynu gan y Goron. Cynhelir sesiynau saethu grugieir ar yr Ystâd ar y rhos a chynhelir gwaith llosgi grug wedi'i reoli er mwyn darparu twf ffres ar gyfer bwyd a chysgod i'r adar. Arferid cynhaeaf y grug i wneud ysgubau, gan dalu ffi i'r Ystâd am eu casglu. Ar un tro, roedd cwmni dan berchnogaeth George Jackson yn cynhyrchu ac yn allforio'r ysgubau i Ewrop ac America. Roedd y Ruabon Brick Company'n defnyddio'r grug i becynnu ei deils a'i friciau yn ystod cludiant. Ym mis Awst 1940, rhoddwyd y rhos ar dân gan fomiau a daflwyd a ddenodd fomwyr Almaenig ar eu ffordd i Lerpwl. Gollyngwyd cyfran uchel o fomiau oedd i fod ar gyfer Lerpwl ganddynt, oherwydd iddynt gredu bod ffatri arfau rhyfel wedi'i tharo.

[F] CHWAREL TYWODFAEN – Darparodd gerrig i sawl tŷ lleol gan gynnwys Capel Tai-Nant.

[G] CAPEL TAI-NANT – Fe'i codwyd ym 1833. Fe'i gwerthwyd ym 1990 a'i thrawsnewid yn dŷ.

[H] PEN-Y-LAN - Fe'i codwyd ym 1728 a thri bwthyn ydoedd yn wreiddiol. Trodd yn un tŷ ar droad y ganrif ddiwethaf ac am rai blynyddoedd hyd at y 1970au, hwn

oedd siop y pentref. Ar un wal, mae mowldiad terracotta o ben llew. Symbol hen gwmni yswiriant yw hwn, a ddefnyddiwyd yn y lle cyntaf o tua 1680 fel nod tân. Roedd y dynion tân neu'r 'dynion dŵr' yn cael eu talu am fynychu pob tân, ond yr adeiladau gyda'r symbolau oedd wedi'u hyswirio.

[I] CRONFA DDŴR PLAS GLAS - fe'i codwyd ym 1935 i ddal 18 miliwn litr o ddŵr ac mae'n gysylltiedig â Chronfa Ddŵr Tŷ Mawr trwy dwnnel tanddaearol. Cafodd ei fomio yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

[J] PLAS DRAIN - Fe'i codwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Gwerthwyd y tŷ rhestredig Gradd II hwn ym 1628 i'r teulu Yorke o Erddig a oedd yn berchen arno tan 1906.

[K] CRONFA DDŴR Tŷ MAWR - Fe'i codwyd ym 1902.

[L] CRONFA DDŴR CAE LLWYD - Fe'i codwyd ym 1860.